



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Canolfan Gydweithredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant

O Gydraddoldeb Rhywedd i Gynhwysiant - Hyrwyddo Tegwch Rhywedd i Ehangu Cyfleoedd o ran y Gwaith a Chyfranogiad

Awst 2026

Mae'r briff hwn yn ystyried effaith anweithgarwch economaidd yng Nghymru o safbwynt cydraddoldeb rhywedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar sbardunwyr sy'n gysylltiedig ag iechyd. Ei fwriad yw hysbysu llunwyr polisi, ymarferwyr iechyd y cyhoedd, a phartneriaid ar draws meysydd iechyd, datblygu economaidd, a pholisi cymdeithasol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn diffinio tegwch rhywedd fel sicrhau bod pobl o bob rhywedd yn cael eu trin yn deg, a bod ganddynt fynediad cyfartal at gyfleoedd, adnoddau a chymorth. Mae hyn yn cydnabod y gall pobl wynebu heriau neu fod ag anghenion gwahanol, felly efallai y bydd angen cymorth wedi'i deilwra ar rai i gyflawni canlyniadau cyfartal. Yn ogystal â ffactorau biolegol, mae'r amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt yn llunio eu hiechyd.

Ym maes gofal iechyd, mae tegwch rhywedd yn golygu dylunio systemau a gwasanaethau sy'n deall ac yn ymateb i wahaniaethau ac anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â rhywedd, fel y gall pawb gael mynediad at ofal diogel, priodol ac effeithiol a chael y cyfle i brofi canlyniadau iechyd da.

Negeseuon Allweddol

- Mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel, sef 24.8% o oedolion o oedran gweithio; mae hyn uwchlaw cyfartaledd y DU, sef 21.6% (Llywodraeth Cymru, 2026)¹
- Salwch hirdymor yw prif achos anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Mae'n cyfrif am 32% o fenywod sy'n economaidd anweithgar, a 37% o ddynion sy'n economaidd anweithgar (Llywodraeth Cymru, 2025)
- Mae'r disgwyliad oes iach (DOE) i fenywod yng Nghymru yn is nag i ddynion, sef 58.5 mlynedd o'i gymharu â 59.2 mlynedd, yn y drefn honno. Mae'r bwlch yn y disgwyliad oes iach i fenywod rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig hefyd ychydig yn ehangach i fenywod (19 mlynedd) nag i ddynion (18 mlynedd) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2026).

¹ Mae anweithgarwch economaidd yn cynnwys pobl nad ydynt mewn cyflogaeth a nad ydynt wedi bod yn chwilio am waith yn weithredol yn ystod y pedair wythnos diwethaf, a/neu'n methu â dechrau ymhen pythefnos (ONS, 2025).

Negeseuon Allweddol

- Mae menywod yn wynebu rhwystrau parhaus i gyfranogiad economaidd, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu, canlyniadau iechyd gwaeth, ac anghydraddoldebau yn y farchnad lafur (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2023)
- Gall mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n seiliedig ar rywedd wella cyfranogiad yn y farchnad lafur, llesiant a thwf economaidd (Fforwm Economaidd y Byd, 2024)

1. Manteision Economaidd a Chymdeithasol Tegwch Rhywedd

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd o fudd i unigolion, cymunedau ac economïau. Mewn gwledydd sy'n buddsoddi mewn gofal plant fforddiadwy, gweithio hyblyg, ac absenoldeb rhiant, ceir cyfranogiad uwch gan fenywod yn y gweithlu a pherfformiad economaidd cryfach (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2023).

Yn gyffredinol, mae cyflogaeth yn gysylltiedig â gwell ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol; fodd bynnag, gall gwaith o ansawdd gwael neu waith ansicr gael yr effaith groes, sy'n ategu pwysigrwydd gwaith teg a diogel (Gerdes et al, 2026).

Mae tystiolaeth o'r DU yn dangos bod ehangu gofal plant a ariennir i gynnwys plant 3-4 oed wedi cyfrannu at gynnydd o £22.3 biliwn o ran yr allbwn economaidd ac mae wedi cefnogi 286,000 o weithwyr ychwanegol (PwC, 2019). Mae modelu ehangach yn awgrymu y gellid cynhyrchu £27–38 biliwn o ran allbwn blyneddol drwy fynediad gwell at ofal plant (New Economy, 2023).

Yng Nghymru, mae gofal plant yn cynnal tua £1.2 biliwn mewn enillion rhieni bob blwyddyn, ond nid yw 61,000 o rieni, y mae

90% ohonynt yn fenywod, yn gallu ymuno â'r gweithlu oherwydd rhwystrau gofal plant, megis diffyg gofal fforddiadwy a hygyrch, menywod yn treulio 45 awr yr wythnos ar gyfartaledd yn gofalu am blentyn ac yn hepgor prydau bwyd oherwydd incwm is (Blynnyddoedd Cynnar Cymru, 2021).

2. Anghydraddoldeb Rhywedd a Gweithgarwch Economaidd yng Nghymru

Mae annhegwch rhywedd yn parhau i gael ei ymgorffori mewn sefydliadau, strwythurau'r farchnad lafur, a normau diwylliannol, gan gyfyngu ar gyfleoedd i fenywod (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2023). Ar y gyfradd bresennol, mae cydraddoldeb rhywedd byd-eang dros 120 mlynedd i ffwrdd (Fforwm Economaidd y Byd, 2025). Er gwaethaf y cynnydd mewn addysg a chyflogaeth, mae menywod yn dal i wynebu bylchau mewn incwm, ansawdd cyflogaeth, a chanlyniadau iechyd (UN Women, 2020).

Yng Nghymru, mae annhegwch rhywedd yn croestorri â thlodi. Mae menywod mewn cymunedau difreintiedig yn profi iechyd gwaeth, llai o gyfleoedd cyflogaeth, a mwy o amlygiad i waith ansicr â chyflog isel (RCOG, 2024). Mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y DU, hyd yn oed wrth eithrio myfyrwyr (ONS, 2025).

3. Y Sbardunau dros Anweithgarwch Economaidd

Mae cyfraddau'r menywod sy'n economaidd anweithgar yn anghymesur oherwydd ffactorau strwythurol, cymdeithasol ac iechyd (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2023). Er mai cyfrifoldebau gofalu oedd y prif ffactor yn hanesyddol, yn fwy diweddar, adroddir mai absenoldeb salwch hirdymor yw'r prif achos (31%), ac yna cyfrifoldebau gofalu (21–22%) (Llywodraeth Cymru, 2025).

Menywod sy'n parhau i wneud y rhan fwyaf o waith gofal a domestig di-dâl; maent yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser, cymryd seibiannau gyrfa, a bod mewn sectorau â chyflogau is (UN Women, 2020). Yn gyffredinol, mae menywod yn profi cyfraddau uwch o dlodi mewn gwaith ac amddifadedd materol na dynion (Llywodraeth Cymru, 2022).

4. Rôl Iechyd

Mae iechyd yn sbarduno anweithgarwch economaidd ac yn ganlyniad iddo, hefyd. Mae cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol cronig yn lleihau'n sylweddol allu unigolion i ddechrau cyflogaeth neu aros yn y gwaith (Burdo, Fernandes a Robroek, 2023).

Mae'r berthynas rhwng iechyd a chyflogaeth yn atgyfnerthu ei gilydd. Gall diweithdra arwain at gyfradd marwolaeth uwch, iechyd cyffredinol gwaeth (salwch hirsefydlog, salwch hirdymor cyfyngus), iechyd meddwl gwaeth (gan gynnwys gorbryder ac iselder), a mwy o ymgynghoriadau meddygol (hynny yw, defnyddio meddyginiaeth a chyfraddau derbyn i'r ysbyty). Mae hyn oherwydd ffactorau seicogymdeithasol, statws economaidd-gymdeithasol a straen ariannol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022).

Mae gwella cyfranogiad yn y gweithlu yn allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, ac mae'n allweddol i wella iechyd a llesiant. Fodd

bynnag, mae'n allweddol bod pobl mewn gwaith teg da, yn hytrach na chyflogaeth ansicr â chyflog isel, am fod cymryd rhan mewn gwaith teg yn rhoi ymdeimlad o bwrpas ac yn golygu bod gan bobl arian, amser ac adnoddau ar gyfer bywyd iach iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. Gall gwaith teg, gwerth chweil a diogel leihau straen seicolegol, creu carreg gamu allan o dlodi a helpu plant dibynol i gael y dechrau gorau mewn bywyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022).

5. Croestoriadedd ac Anghydraddoldebau Iechyd Menywod

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn un o'r rhagfynegwyr cryfaf o iechyd gwael; pan fydd yn croestorri â rhywedd, mae annhegwch yn dyfnhau (Marmot et al., 2020; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2026). Mae'r croestoriadau hyn yn cynnwys pethau fel tlodi, anabledd, hiliaeth, rhwystrau iaith, trais domestig a rhywiol ac ynysu gwledig, ac maent yn cyfrannu at risg uwch o glefyd, straen cronig, llai o debygolrwydd y bydd symptomau'n cael eu hadnabod, a llai o fynediad at ofal (Bambra, 2022; Hawkes et al 2020).

Mae menywod anabl yn arbennig o agored i niwed o ran diogelwch ariannol, am eu bod yn profi rhai o'r bylchau cyflog mwyaf o'u cymharu â dynion anabl neu fenywod eraill, ac maent yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi rhan-amser neu gael cyflog isel (TUC, 2018).

6. Dulliau Polisi a Chyfleoedd

Mae gwella cydraddoldeb rhywedd yn darparu manteision iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Mae cyfranogiad uwch yn cryfhau'r gweithlu, yn hybu cynhyrchiant, ac yn gwella llesiant. Mae dull croestoriadol yn galluogi llunwyr polisi a gwasanaethau iechyd i ddylunio polisiâu a gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion amrywiol pob menyw yng Nghymru (WHO, 2021; Villosio et al, 2017).

Mae lleihau anweithgarwch economaidd menywod yn gofyn am gamau polisi cydlynol ar draws ymyriadau polisi iechyd, economaidd a chymdeithasol:

- Prif ffrydio rhywedd – integreiddio safbwyntiau rhywedd i bob polisi a gwasanaeth (Sefydliad Ewrop dros Gydraddoldeb Rhywedd, 2023).
- Cyllidebu sy'n ymatebol i rywedd – asesu sut mae gwariant yn effeithio ar wahanol grwpiau a sicrhau bod adnoddau'n cefnogi cydraddoldeb (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2023).
- Dulliau economi llesiant – yn blaenoriaethu iechyd, cydraddoldeb a chynaliadwyedd ochr yn ochr â thwf economaidd (WEA, 2022)

Mae'r rhain yn ategu fframweithiau deddfwriaethol presennol, sef: Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Yn ogystal, pasiodd y Senedd Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) yn 2025. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effeithiau posibl penderfyniadau strategol arfaethedig ar iechyd a llesiant. Bwriad y Rheoliadau, a ddaw i rym yn 2027, yw sicrhau bod anghydraddoldebau iechyd yn cael eu nodi a'u hystyried fel rhan o brosesau penderfynu.

7. Casgliad

Mae cysylltiad agos rhwng anweithgarwch economaidd ac anghydraddoldeb rhywedd. Salwch hirdymor yw prif achos anweithgarwch menywod yng Nghymru erbyn hyn, ac mae anghydraddoldebau iechyd, cyfrifoldebau gofalu, a strwythurau'r farchnad lafur yn cyfyngu ar allu menywod i gymryd rhan lawn yn y gymdeithas a'r economi.

Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am gamau cydlynol. Bydd gwella Disgwyliad Oes Iach, cryfhau polisiâu sy'n cefnogi iechyd menywod, ehangu mynediad at waith teg a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd strwythurol yn hanfodol i sicrhau cynnydd.

Trwy fabwysiadu dull tegwch rhywedd, gall Cymru gefnogi mwy o gyfranogiad, lleihau anghydraddoldebau, a meithrin cymdeithas iachach, fwy cyfartal, a mwy ffyniannus.

Cyfeiriadau

Bambra, C. (2022). Placing intersectional inequalities in health. *Health & Place*, 75, 1–7.

Blynnyddoedd Cynnar Cymru (2021): Asesiad economaidd o'r sector gofal plant yng Nghymru. Caerdydd: Blynnyddoedd Cynnar Cymru.

Burdorf A, Fernandes RCP, Robroek SJW (2023) Health and inclusive labour force participation. *The Lancet*. DU

Crenshaw, K. (1989) Demarginalizing the intersection of race and sex: A Black feminist critique of antidiscrimination doctrine, feminist theory and antiracist politics. *University of Chicago Legal Forum*, 1989(1), tt.139–167.

European Institute for Gender Equality (2023) Gender mainstreaming toolkit. Vilnius: EIGE.

Gerdes R, Jackson TD, Roberts R, Lytvyak E, Deibert D, Dennett L, Burton AK, Gross DP, Els C, Doroshenko A, Hagtvedt (2026) Associations Between Employment and Health Outcomes: A Systematic Review of Reviews. *Journal of occupational rehabilitation*.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) Cyflawni gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch. Caerdydd. Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2026) Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) Ystadegau tlodi ac amddifadedd materol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2025) Trosolwg o'r farchnad lafur, Cymru, Chwefror 2026. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Marmot, M., Allen, J., Boyce, T., Goldblatt, P. and Morrison, J. (2020) Health equity in England: The Marmot Review 10 years on. London: Institute of Health Equity.
New Economy (2023) The childcare crunch and economic growth. Manceinion: New Economy.

PwC (2019) The economic impact of extending childcare support in England. Llundain: PwC.

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2024). Poverty, deprivation and women's health. London. RCOG

TUC (2018). Disability employment and pay gaps. Llundain. DU

UN Women (2020) Progress of the world's women 2019–2020: Families in a changing world. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig.

Wellbeing Economy Alliance (2022) Wellbeing economy policy design guide. Caeredin: WEAll.

World Economic Forum (2025) Global gender gap report 2025. Geneva: WEF.

World Health Organization (2021) Violence against women prevalence estimates, 2018. Geneva: WHO.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Economic inactivity in the UK: Labour market statistics. Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2023) Gender equality and economic empowerment. OECD (2023) Gender equality and economic empowerment. Paris: OECD.

Villosio, C., Caisl, J., Di Tommaso, M.L., Grinza, E., Mantouvalou, K., Piazzalunga, D., and Rossi, M., Economic Benefits of Gender Equality in the European Union. Literature Review: Existing Evidence and Methodological Approaches, European Institute for Gender Equality (EIGE), 2017

Awduron

Lauren Couzens, Jo Peden, Cerys Preece & Dylan John Polisi a iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefudliad Iechyd y Byd ar Fyddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored cyn belled a 'i fod yn

cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Mae hawlfraint ar drefniant teipograffig, dyluniad a gosodiad yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Solutionsplatform@wales.nhs.uk